# TRAFNIDIAETH CYMRU
# DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# CYFLWYNIAD

Yn Trafnidiaeth Cymru, rydym am i bobl ddewis teithio gyda ni yn hytrach na defnyddio unrhyw ffordd arall o deithio. Rhaid i ni adeiladu rhwydwaith teithio cynaliadwy ar ran y cymunedau a wasanaethwn. Yn hyn o beth, mae'n rhaid i ni fod yn agored ac yn dryloyw yn y ffordd rydyn ni'n gweithio. Mae cyhoeddi'r dangosyddion perfformiad allweddol hyn yn gam pwysig tuag at hyn. Bydd yn ein helpu i fagu hyder ein cwsmeriaid, cymunedau a rhanddeiliaid ynom ni.

Mae ein dangosyddion perfformiad allweddol wedi'u rhannu'n bum maes allweddol (diogelwch, cwsmeriaid, pobl, cyllid a chynaliadwyedd) sy'n adlewyrchu cylch gwaith Trafnidiaeth Cymru.

Mae dangos cynnydd ym mhob un o'r meysydd hyn yn flaenoriaeth i ni. Mae pob un yn mesur pa mor agos ydyn ni at gyflawni'r cylch gwaith y mae Llywodraeth Cymru wedi'i bennu ar ein cyfer. Gallwch ddarllen y blaenoriaethau hyn yn ein cynllun busnes a'n strategaeth gorfforaethol.

Bydd ein dangosyddion perfformiad allweddol yn datblygu wrth i ni gyflawni ein cylch gwaith.

## Nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol




| | Dangosydd Perfformiad Allweddol (KPI) | Nodau llesiant | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 |
| **Diogelwch** | Diogelwch Cydweithwyr | | ■ | ■ | | | | |
| | Digwyddiadau Diogelwch fesul 100k o Deithiau Teithwyr | | ■ | ■ | | | | |
| **Cwsmeriaid** | Boddhad Cwsmeriaid | ■ | | | | ■ | | |
| | Cwynion am bob 100k o Deithiau Trên | ■ | | | | ■ | | |
| | Teithiau Teithwyr Trên | ■ | | | | ■ | | |
| | Gwasanaethau Llinellau Craidd y Cymoedd ar amser (hyd at 3 munud) | ■ | | | | ■ | | |
| | Cymru a'r Gororau Ar Amser (hyd at 3 munud) | ■ | | | | ■ | | |
| | Canslo gwasanaethau ar y diwrnod | ■ | | | | ■ | | |
| | Canslo gwasanaethau ymlaen llaw | ■ | | | | ■ | | |
| | Cwynion am TrawsCymru fesul 100k o Deithiau | ■ | | | | ■ | | |

Wrth baratoi ar gyfer cael ein cynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ym mis Mehefin 2024, rydym wedi alinio ein dangosyddion perfformiad allweddol â'r saith nod llesiant.

Mae hyn yn ymwneud â sicrhau bod gan genedlaethau'r dyfodol yr un ansawdd bywyd ag sydd gennym ni nawr. Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer gwneud penderfyniadau gwell drwy sicrhau bod cyrff cyhoeddus yn:

- ystyried yr hirdymor
- helpu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu
- cymryd agwedd integredig
- cymryd agwedd gydweithredol ac ystyried a chynnwys pobl o bob oed ac amrywiaeth.

| | |
|---|---|
| | Teithiau Teithwyr TrawsCymru |
| | Canslo Gwasanaethau TrawsCymru |
| | Cwynion am y Gymraeg fesul 100k o Deithiau gan y cyhoedd |
| Pobl | Ymgeiswyr benywaidd |
| | Ymgeiswyr benywaidd sy'n llwyddo i gael Swyddi gyda TrC |
| | Cadw Staff |
| Cyllid | Gwariant Gweithredol |
| | Gwariant cyfalaf |
| | Refeniw Tocynnau |
| Cynaliadwyed d | Allyriadau Carbon Deuocsid fesul Cilometr Teithwyr |

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# DIOGELWCH

## Diogelwch Cydweithwyr

2 3

| 2022/23 | 2023/24 | Ch4 2023/24 |
|---|---|---|
| 99.4% | 99.3% | 99.4% |

**Disgrifiad KPI**

Canran gyffredinol staff a chontractwyr TrC a weithiodd yn ddiogel ac nad oeddent yn agored i weithredoedd neu amodau anniogel, fel ymddygiad gwrthgymdeithasol, osgoi adfyd neu ddamweiniau.

**Trosolwg**

Ar gyfartaledd, bu 99.3% o gydweithwyr yn gweithio'n ddiogel yn ystod 2023/24. Rydym wedi cynyddu nifer y camerâu a wisgir ar y corff ar gyfer ein cydweithwyr rheng flaen ac wedi ei gwneud hi'n haws rhoi gwybod am bryderon neu broblemau. Mae ein darpariaeth diogelwch yn cael ei hadolygu'n gyson a gall ein tîm ystwyth drafod gyda'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig unrhyw feysydd sy'n peri pryder. Mae ein tîm diogelwch wedi bod ar daith yn mesur risgiau llithro a theithio ac yn gweithio gyda'n timau gweithredol a chyfleusterau i helpu i leihau risgiau ymhellach.

**Edrych Ymlaen**

Mae ein Cynllun Iechyd, Diogelwch a Chydnerthedd 2024/25 wrthi'n cael ei ddatblygu. Bydd yn cynnwys amcanion a strategaethau pellach i wella diogelwch ein cydweithwyr a'n cwsmeriaid gan gynnwys gweithrediadau a gweithgareddau masnachfreinio bysiau. Rydym yn ceisio cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad cwsmeriaid ar ein gorsafoedd, trenau a bysiau, adolygu ein prif gymwyseddau cynllunio brys a diogelwch craidd, yn ogystal ag arbrofi gyda phrosiect plismona integredig ar linellau craidd y cymoedd.

## Digwyddiadau Diogelwch fesul 100k o Deithiau

2 3

| 2022/23 | 2023/24 | Ch4 2023/24 | Disgrifiad KPI |
|---|---|---|---|
| 1.2 | 1.3 | 1.1 | Nifer y digwyddiadau diogelwch sy'n cynnwys unrhyw gwsmer, teithiwr, neu aelod o'r cyhoedd fesul 100,000 o deithiau a wna teithwyr. |

## Trosolwg

Mae nifer y digwyddiadau diogelwch sy'n ymwneud â'n teithwyr o gymharu â nifer y teithiau teithwyr yn parhau i fod yn gymharol gyson trwy gydol 2023/24. Rydym yn gweld cynnydd tymhorol pan fydd digwyddiadau, gwyliau'r haf a dathliadau Nadolig. Fel arfer, mewn gorsafoedd rheilffordd, wrth fynd ar drenau neu ddod oddi arnynt y mae damweiniau/problemau'n digwydd. Mae'r rheswm drostynt yn aml yn gysylltiedig ag ymddygiad cwsmeriaid, gan gynnwys dan ddylanwad alcohol, rhuthro i ddal trên a ddim yn ddigon gofalus ar risiau. Y llynedd, cynhaliodd y Bwrdd Diogelwch a Safonau Rheilffyrdd adolygiad annibynnol ar ddamweiniau ymysg cwsmeriaid sydd wedi ein helpu i ddatblygu ein rhaglen a'n hymgyrchoedd diogelwch cwsmeriaid arfaethedig. Rydym wedi adnewyddu ein Polisi a'n Gweithdrefnau Diogelu, gan weithio gydag Adran Drafnidiaeth y DU a'r Samariaid i gefnogi ein cwsmeriaid, ein staff a'n cymunedau. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i [illegible]

## Edrych Ymlaen

Bydd y cynllun damweiniau ac ymddygiadau cwsmeriaid yn anelu at fynd i'r afael â lliniaru pellach i leihau niwed. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig i gynllunio ar gyfer chwaraeon a chyngherddau mawr yng Nghaerdydd, yn enwedig pencampwriaeth rygbi'r Chwe Gwlad sy'n denu nifer fawr o ymwelwyr i ganol y ddinas. Rydym yn datblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol Diogelwch a thargedau er mwyn ein helpu i lywio penderfyniadau a fydd yn sbarduno gwelliannau pellach.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# CWSMERIAID

## Boddhad Cwsmeriaid

1 5

| 2022/23 | 2023/24 | Ch4 2023/24 | Disgrifiad KPI |
|---|---|---|---|
| 81.8% | 82.0% | 83.6% | Rydym yn defnyddio system Wavelength i fesur boddhad cwsmeriaid, offeryn monitro a mesur gwasanaeth cwsmeriaid y diwydiant rheilffyrdd. Mae'n mesur pa mor fodlon yw ein cwsmeriaid gyda'u taith gyffredinol. |

## Trosolwg

Rydym wedi llwyddo i gynnal boddhad cwsmeriaid ar lefel gymharol uchel eleni. Mae hyn er gwaethaf y gwaith trawsnewid mawr rydyn ni'n ei wneud sy'n effeithio ar ein cwsmeriaid, yn enwedig yn sgil cau'r lein rhwng Pontypridd a Threherbert am naw mis. Rydym wedi gwrando ar adborth ein cwsmeriaid ac wedi gweithredu arno. Rydym wedi lansio ffordd newydd o fesur ac ymateb i adborth gan ein cwsmeriaid. Wrth i ni roi rhagor o'n fflyd newydd o drenau ar waith ar ein gwasanaethau pellter hir a chynyddu niferoedd y staff sy'n gweithio ar ein trenau, mae ein perfformiad gwasanaeth wedi gwella, yn enwedig tuag at ran olaf 2023/24 a gwelwyd gwelliant ym mhrofiad y cwsmer hefyd.

## Edrych Ymlaen

A ninnau'n parhau i roi trenau newydd ar waith, byddwn yn gwneud newidiadau i'n hamserlenni gan fanteisio ar y seilwaith gwell hwn. Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid yn y sector bysiau i gyflwyno gwasanaeth integredig, gan wneud trafnidiaeth gyhoeddus a theithio llesol yn ddewis gwirioneddol amgen i ddefnyddio'r car. Byddwn yn defnyddio'r adborth a gawn gan ein cwsmeriaid i wella ein gwasanaethau. Byddwn yn gwella cyflymder ac ansawdd yr wybodaeth a roddwn i'n cwsmeriaid.

## Cwynion fesul 100k Teithiau Rheilffordd

1 5

| 2022/23 | 2023/24 | Ch4 2023/24 |
|---|---|---|
| N/A | 137 | 113 |

**Disgrifiad KPI**
Unrhyw fynegiant o anfodlonrwydd gan gwsmer neu gwsmer arfaethedig ynghylch Rheilffordd TrC fel cyfran o 100,000 o deithiau teithwyr rheilffordd. Nid yw'r data ar gyfer 2022/23 ar gael wrth i'n methodoleg newid ac felly nid oes modd darparu cymhariaeth effeithiol.

**Trosolwg**
Rydym wedi blaenoriaethu cynnal profiad cwsmer rhagorol yn ystod y gwaith trawsnewid ac wedi gwella sut rydym yn ymateb i gwynion cwsmeriaid.  Rydym yn ymateb i gwynion cwsmeriaid yn gyflymach ac yn fwy effeithiol. Mae amseroedd ymateb i gwynion cwsmeriaid wedi gostwng yn sylweddol o 14.6 diwrnod gwaith ar gyfartaledd i 3.8 diwrnod gwaith.

**Edrych Ymlaen**
Mae'r manylion a'r cyflymder yr ydym yn darparu gwybodaeth i gwsmeriaid mewn gorsafoedd ac ar ein platfformau digidol yn faes yr ydym yn canolbwyntio arno wrth symud ymlaen. Byddwn yn parhau i ddatblygu cefnogaeth fewnol ar draws TrC i fod yn hyblyg ac yn ystwyth wrth ymateb i gyswllt cwsmeriaid ar adegau prysur. Rydym yn gweithio i ymgorffori ymddygiadau o'n Rhaglen Cwsmeriaid yn Gyntaf lwyddiannus ar draws TrC.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# CWSMER

## Teithiau Teithwyr Rheilffordd

1 2 5

| 2022/23 | 2023/24 | Ch4 2023/24 |
|---|---|---|
| 23.4 M | 26.6 M | 8.5 M |

**Disgrifiad KPI**
Cyfanswm nifer y teithwyr trên a brynodd docynnau ar draws rhwydwaith Cymru a'r Gororau. Mae hyn yn cynnwys Llinellau Craidd y Cymoedd a Cymru a'r Gororau.

**Trosolwg**
Cynyddodd nifer teithiau teithwyr trên yn sylweddol eleni. Gwelodd teithiau a wnaed ar ein gwasanaethau pellter hir y cynnydd canrannol mwyaf yn ystod 2023/24. Gostyngodd pellteroedd teithio cyfartalog o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

**Edrych Ymlaen**
Byddwn yn parhau i chwilio am ffyrdd i wella profiad y cwsmer i greu twf pellach ymysg nifer y teithiau a wneir. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddarparu ffyrdd haws i gwsmeriaid ddod o hyd i ac i brynu tocynnau a rhoi hyder iddynt eu bod yn prynu'r tocyn gwerth gorau. Yn 2024/25, byddwn yn ymestyn darpariaeth tocynnau Talu Wrth Fynd yn Ne-ddwyrain Cymru.

## Llinellau Craidd y Cymoedd Ar Amser (neu o fewn 3 munud)

1 5

| 2022/23 | 2023/24 | Ch4 2023/24 |
|---|---|---|
| 83.2% | 86.5% | 90.2% |

**Disgrifiad KPI**

Canran y gwasanaethau rheilffordd sy'n cyrraedd o fewn 3 munud i'r amser cyrraedd swyddogol ar draws Llinellau Craidd y Cymoedd. Cyfeirir at hyn yn fewnol fel Amser Teithwyr a Gollir. Mae pwysoliad yn cael ei gymhwyso i orsafoedd rheilffordd sydd â'r nifer uchaf o gwsmeriaid felly mae oedi mewn lleoliadau ymwelwyr uwch yn cael mwy o effaith ar y mesur. Er enghraifft, mae oedi yng ngorsaf Heol y Frenhines Caerdydd yn cael mwy o effaith ar y ganran o'i gymharu â gorsaf Threherbert er enghraifft.

**Trosolwg**

Yn 2023/24 cynhaliodd TrC raglen o welliannau mawr i Linellau Craidd y Cymoedd. Roedd hyn yn cynnwys cau'r lein rhwng Pontypridd a Threherbert am 9 mis er mwyn gallu diweddaru seilwaith rheilffordd hynaf Cymru. Fe wnaethom gynyddu prydlondeb Llinellau Craidd y Cymoedd 3.4% yn 2023/24 o'i gymharu â 2022/23. Cyfyngiadau cyflymder a methiannau seilwaith gafodd yr effaith fwyaf ar berfformiad yn ystod y flwyddyn gyda'r fflyd trenau Dosbarth 231 yn perfformio'n dda yn dilyn eu rhoi ar waith yn 2022/23 ar y lein rhwng Rhymni a Phenarth, a'r trenau Dosbarth 150 yn parhau i wasanaethu ar weddill Llinellau Craidd y Cymoedd.

**Edrych Ymlaen**

Rydym yn cynyddu ein gallu i gynnal a chadw ac yn adeiladu'r ddarpariaeth sefydlog arfaethedig i wella argaeledd a dibynadwyedd ein fflyd o drenau. Byddwn yn optimeiddio amserlenni drwy gyflwyno trenau newydd ar Linellau Craidd y Cymoedd. Dylai hyn leihau oedi.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# CWSMERIAID

## Cymru a'r Gororau Ar Amser (hyd at 3 munud)

1 5

| 2022/23 | 2023/24 | Ch4 2023/24 |
|---|---|---|
| 70.7% | 69.7% | 80.2% |

**Disgrifiad KPI**

Canran y gwasanaethau rheilffyrdd sy'n cyrraedd o fewn 3 munud i'r amser cyrraedd a drefnwyd ar draws Cymru a'r Gororau, cyfeirir at hyn yn fewnol fel Amser Teithwyr a Gollir. Mae pwysoliad yn cael ei gymhwyso i orsafoedd rheilffordd sydd â'r nifer uchaf o gwsmeriaid felly mae oedi mewn lleoliadau lle mae mwy o ymwelwyr yn cael mwy o effaith ar y mesur. Er enghraifft, mae oedi yng Nghanol Caerdydd yn cael effaith uwch ar y ganran o'i gymharu ag oedi ym Mhont-y-pŵl a'r Dafarn Newydd.

**Trosolwg** Er gwaethaf blwyddyn heriol, bu'n timau yn gweithio'n galed i leihau'r effaith ar ein cwsmeriaid ac mae ein prydlondeb ar rwydwaith Cymru a'r Gororau wedi gostwng ychydig o dan 1% yn 2023/24 o'i gymharu â 2022/23. Mae ein perfformiad yn ystod chwarter olaf y flwyddyn wedi dangos gwelliant sylweddol. TrC oedd yn gyfrifol am hanner yr holl oedi, ond roedd y prif ddigwyddiadau yn cael eu dominyddu gan ddiffygion seilwaith gan gynnwys digwyddiad thermol ym Marshfield ger Casnewydd a thirlithriad yn Wellington. Ar ddechrau'r flwyddyn, roedd prinder cerbydau trên oherwydd problem gyda system thermol ein fflyd trenau Dosbarth 175 ac nid oedd modd eu defnyddio. Am weddill y flwyddyn, mae rhaglen TrC i uwchraddio ein fflyd a chael gwared ar drenau hŷn o'r gwasanaeth wedi parhau, gan arwain at wella perfformiad, ond cawsom ein heffeithio yn ddifrifol yn yr hydref gan stormydd a thywydd garw parhaus, a achosodd ddifrod i'n trenau fflyd Dosbarth 197.

## Edrych Ymlaen

Rydym yn cynyddu ein gallu i gynnal a chadw ac yn darparu'r adnodd stablu arfaethedig i wella argaeledd a dibynadwyedd ein trenau, cyflawni ein hamcanion cynllun gwella perfformiad gyda'n partneriaid rheoli seilwaith, gyda'r bwriad o ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cwsmeriaid. Dylai hyn leihau oedi.

## Canslo ar-y-diwrnod

1 5

| 2022/23 | 2023/24 | Ch4 2023/24 |
|---|---|---|
| 4.5% | 5.0% | 2. 4 |

**Disgrifiad KPI**

Canran y gwasanaethau rheilffyrdd a ganslwyd ar y diwrnod ar draws y rhwydwaith fel cyfran o gyfanswm nifer y gwasanaethau a nodwyd yn y cynllun trên dyddiol.

## Trosolwg

Ar gyfartaledd, roedd TrC yn rhedeg 5629 o wasanaethau'r wythnos dros 290,000 o wasanaethau yn 2023/24. Cynyddodd canslo ar y diwrnod 0.5% yn 2023/24 o'i gymharu â 2022/23. Fodd bynnag, gwelwyd gwelliant sylweddol yn Ch4. Yr achosion mwyaf am ganslo gwasanaethau ar y diwrnod yn ystod y flwyddyn oedd prinder cerbydau trên  ar ddechrau'r flwyddyn gyda phrinder trenau a thywydd eithafol.

## Edrych Ymlaen

Er mwyn lliniaru effeithiau tywydd eithafol, rydym wedi paratoi cynllun addasu a chydnerthedd newid yn yr hinsawdd, a byddwn yn ymgorffori'r gofynion ym manylebau ein gwaith adnewyddu ar y seilwaith ar Linellau Craidd y Cymoedd. Byddwn hefyd yn ceisio canolbwyntio ar ddefnyddio data i lywio gofynion cynnal a chadw ac adnewyddu yn rhagweithiol, gan arwain at fwy o ddibynadwyedd yn y seilwaith.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# CWSMERIAID

## Cyn canslo

1 5

| 2022/23 | 2023/24 | Ch4 2023/24 |
|---|---|---|
| 1. 2 | 0.9% | 0. 2 |

**Disgrifiad KPI**

Canran y gwasanaethau rheilffyrdd a ganslwyd cyn 10pm ar y diwrnod cyn gweithredu ar draws y rhwydwaith fel cyfran o gyfanswm nifer y gwasanaethau a nodwyd yn y cynllun trên dyddiol.

**Trosolwg**
Gwelwyd gostyngiad yn nifer y gwasanaethau a gafodd eu canslo ymlaen llaw yn 2023/24 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol a pharhaodd i wella yn chwarter olaf y flwyddyn. Mae TrC yn defnyddio trefniadau cyn-canslo i sicrhau bod yr wybodaeth sydd ar gael i gwsmeriaid ynghylch statws teithiau arfaethedig yr effeithir arnynt gan brinder cerbydau, tywydd gwael neu faterion seilwaith hysbys yn well, gan sicrhau bod gan ein cwsmeriaid ddigon o amser i newid eu cynlluniau. Rydym wedi gwella argaeledd criw trenau rheng flaen yn sylweddol dros y flwyddyn trwy gynllunio adnoddau gan leihau nifer y gwasanaethau a gaiff eu canslo ymlaen llaw.

**Edrych Ymlaen**
Wrth i fwy o drenau newydd gael eu rhoi ar waith, dylai niferoedd canslo a achosir gan broblemau cynnal a chadw annisgwyl ddechrau gostwng. Yn y tymor byr, rydym wedi rhagweld rhai problemau parhaus gydag argaeledd rhai o'n trenau felly mae gwaith peirianyddol yn parhau i gael ei wneud i'w ddatrys. Byddwn yn parhau i weithio gyda'n partneriaid Rheolwr Seilwaith i liniaru effaith tywydd gwael a diffygion seilwaith i'n cwsmeriaid.

## Cwynion fesul 100k o Deithiau - TrawsCymru

1 5

| 2022/23 | 2023/24 | Ch4 2023/24 |
|---|---|---|
| N/A | 24 | 17 |

**Disgrifiad KPI**
Unrhyw fynegiant o anfodlonrwydd gan gwsmer neu ddarpar gwsmer am wasanaethau TrawsCymru T1, T1C, T2, T3, T6, T10 fel cyfran o 100,000 o deithiau teithwyr TrawsCymru.

**Trosolwg**
Roedd nifer cyfartalog y cwynion gan gwsmeriaid am bob 100,000 o deithiau ar wasanaethau TrawsCymru a reolwyd gennym ar eu huchaf yn Chwarter 3. Roedd hyn yn cyd-fynd â rheoli'r llwybrau T1C, T2, T3, T6 a T10. Ar ôl datrys mân faterion cychwynnol sy'n arferol gyda newid mawr, gostyngodd lefelau cwynion cyfartalog yn Chwarter 4 a dyma'r i'r isaf a welwyd drwy'r flwyddyn. Roedd adborth cwsmeriaid y tu hwnt i'r disgwyliadau. Mae hyn yn adlewyrchu'r lefel gyson o ddarpariaeth gwasanaeth a ddarperir.

**Edrych Ymlaen**
Byddwn yn parhau i fonitro bysiau a gwasanaethau bysiau i gynnal perfformiad uchel ar lwybrau TrawsCymru.



# CWSMERIAID

## Teithiau Teithwyr TrawsCymru

1 2 5

| 2022/23 | 2023/24 | Ch4 2023/24 |
|---|---|---|
| 0.9 M | 1.1 M | 0.3 M |

**Disgrifiad KPI**
Cyfanswm y teithwyr sy'n cael eu cludo ar lwybrau T1, T1C, T2, T3, T6, T10 TrawsCymru.

## Trosolwg

Gwelodd teithiau teithwyr ar f
ysiau ein llwybrau TrawsCymru dwf sylweddol o 24% flwyddyn ar ôl blwyddyn, gyda chynnydd nodedig mewn teithiau byr. Rydym yn cynnal nifer o ymgyrchoedd ar adegau allweddol o'r flwyddyn i annog mwy o bobl i deithio ar y bws. Gwnaethom nifer o welliannau gan gynnwys addasu'r amserlen i gysylltu gwasanaethau bysiau o Gaerdydd i Aberystwyth, Bangor i Aberystwyth a Machynlleth i Aberystwyth; cynyddu amlder y gwasanaeth T10 ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau ysgol rhwng Betws-y-Coed a Bangor, gan ddarparu gwasanaeth bob awr er mwyn cysylltu â gwasanaethau ym Mangor ac Eryri gan gynnwys Sherpa'r Wyddfa; a chyflwyno gwasanaeth T3C i gysylltu â phentrefi gan gynnwys Llanuwchllyn i Gorwen, gan

## Edrych Ymlaen

Drwy sicrhau safonau gwasanaeth sy'n gyson uchel ar lwybrau bysiau TrawsCymru yr ydym yn eu rheoli, byddwn yn ceisio cadw teithwyr a byddwn yn chwilio am gyfleoedd i gynyddu nifer y teithwyr ar y gwasanaethau hyn gan ganolbwyntio ar deithiau hamdden. Byddwn yn sicrhau bod prisiau tocynnau yn gyson ac yn werth da am arian. Byddwn yn parhau i edrych ar opsiynau i gwsmeriaid ddefnyddio un tocyn i deithio i'w cyrchfan, boed hynny ar y trên neu'r bws.

## Gwasanaethau TrawsCymru a gafodd eu canslo

1 5

| 2022/23 | 2023/24 | Ch4 2023/24 |
|---|---|---|
| N/A | 0. 6 | 1.8% |

**Disgrifiad KPI**

Canran y teithiau TrawsCymru T1, T1C, T2, T3, T6, T10 a ganslwyd ar y diwrnod. Nid yw'r data ar gael cyn chwarter 2.

## Trosolwg

Arhosodd lefelau canslo bysiau ar lwybrau TrawsCymru yr ydym yn eu rheoli yn gyson isel drwy gydol 2023/24. Roedd peth cynnydd yn lefelau canslo trwy gydol y flwyddyn oherwydd prinder gyrwyr tymor byr neu gyfnodau o dywydd garw.

## Edrych Ymlaen

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n gweithredwyr llwybrau dan gontract TrawsCymru i sicrhau bod achosion canslo yn cael eu cadw i'r lefelau lleiaf posibl. Byddwn yn monitro ein contractau'n effeithiol i gyfyngu ar ganslo.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# CWSMERIAID

## Cwynion Allanol am y Gymraeg fesul 100k o Deithiau

6

| 2022/23 | 2023/24 | Ch4 2023/24 | Disgrifiad KPI |
| --- | --- | --- | --- |
| 0. 05 | 0. 06 | 0. 05 | Cwynion newydd am bob 100,000 o deithiau gan deithwyr (TrawsCymru a'r trên) i Gomisiynydd y Gymraeg pan nad yw'r achwynydd wedi derbyn gwasanaeth yn Gymraeg gan TrC neu os oeddent yn anfodlon â phenderfyniad TrC ar fater yn ymwneud â'r Gymraeg. |

## Trosolwg

Er y bu cynnydd bach mewn cwynion newydd i Gomisiynydd y Gymraeg eleni o'i gymharu â'r un diwethaf, ni fu tuedd benodol mewn themâu o ran y cwynion. Er mwyn sicrhau bod y Gymraeg wedi'i hymgorffori ar draws TrC, rydym wedi rhoi ar waith trenau newydd sydd â modd paratoi gwybodaeth yn ddwyieithog, gan gynyddu'r cyhoeddiadau Cymraeg sydd ar ein trenau ac annog y defnydd o dempledi swyddogol fel bod arwyddion dros dro yn gwbl ddwyieithog.

## Edrych Ymlaen

Rydym yn gweithio i sicrhau bod ein fflyd trenau a'n gorsafoedd trenau yn cadw at safonau a gofynion y Gymraeg. Er mwyn sicrhau tryloywder yn y maes hwn, byddwn yn cyhoeddi adroddiad cydymffurfio â'r Gymraeg a'n strategaeth iaith Gymraeg gyffredinol.

## Ymgeiswyr benywaidd

4 5

| 2022/23 | 2023/24 | Ch4 2023/24 |
|---|---|---|
| 26.3% | 27.2% | 27.5% |

**Disgrifiad KPI**
Canran y menywod sy'n ymgeisio am swydd gyda TrC. Yn hanesyddol, mae'r diwydiant trafnidiaeth wedi cyflogi llai o fenywod na dynion. Rydyn ni am newid hynny. Rydym yn adeiladu tîm amrywiol sy'n adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

### Trosolwg
Eleni gwelwyd cynnydd yn nifer a chyfran y menywod a ymgeisiodd am swydd gyda TrC. Mae gennym waith i'w wneud o hyd i gynyddu hyn ymhellach fel ein bod yn cynrychioli'r cymunedau a wasanaethwn. Gwnaethom ddefnyddio hysbysebion wedi'u targedu ar gyfer swyddi gyrwyr trên a pheirianneg ac mewn meysydd arbenigol eraill fel gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg i annog menywod i ymgeisio. Aethom i nifer o ddigwyddiadau recriwtio i hysbysebu swyddi TrC.

### Edrych Ymlaen
Byddwn yn parhau i ddefnyddio ymgyrchoedd recriwtio i gynyddu ceisiadau gan fenywod. Rydym am barhau i ddenu ceisiadau gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i sicrhau ein bod yn recriwtio i adlewyrchu amrywiaeth y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Byddwn yn lansio ein prentisiaeth gradd cerbydau trên cyntaf i ddenu dau ymgeisydd o gefndiroedd amrywiol. Rydym yn cydnabod bod meysydd eraill o Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant megis Anabledd a Hil y dylem fod yn cyhoeddi Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar eu cyfer ac wrth i ni wella ansawdd ein data, byddwn yn cyhoeddi rhagor o ddangosyddion.

## Menywod sy'n llwyddo i gael swydd gyda TrC

4 5

| 2022/23 | 2023/24 | Ch4 2023/24 |
|---|---|---|
| 35.2% | 33.4% | 29.8% |

**Disgrifiad KPI**
Canran yr ymgeiswyr benywaidd sy'n llwyddo i gael swydd gyda TrC. Rydym yn gweithio i adeiladu tîm amrywiol sy'n adlewyrchu'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

### Trosolwg
Rydym wedi ymrwymo i gynyddu cyfran y menywod sy'n llwyddo i gael swydd gyda TrC ac rydym wedi targedu ein hysbysebion recriwtio eleni i hyrwyddo'r cyfleoedd sydd ar gael i fenywod. Rydym yn falch o hyrwyddo menywod sy'n gweithio yn y sector trafnidiaeth ac yn ceisio arwain drwy esiampl gyda'n Prif Swyddog Cwsmeriaid a Diwylliant, Marie Daly, yn cael ei phenodi'n Gadeirydd Menywod mewn Rheilffyrdd yn 2023/24 a'n Cyfarwyddwr Ymgysylltu â Chwsmeriaid, Jo Foxall, yn parhau â'i gwaith fel Arweinydd Cymru dros Fenywod mewn Trafnidiaeth. Mae ein safbwynt rhagweithiol wedi gweld ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn culhau eleni. Fodd bynnag, er gwaethaf ein gwaith da yn y maes hwn, gostyngodd cyfran y menywod a lwyddodd i gael swydd gyda TrC ychydig yn 2023/24 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

### Edrych Ymlaen
Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd trwy barhau i ddatblygu ein hymgyrchoedd recriwtio cadarnhaol sy'n targedu menywod i wneud cais am rolau nad ydynt efallai wedi'u hystyried yn draddodiadol. Er mwyn cyflawni hyn, rydym yn diweddaru ein gweithdrefn recriwtio a fydd yn helpu i gefnogi menywod i rolau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg. Byddwn yn gweithio gyda'n grwpiau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant mewnol a phartneriaid cymunedol i nodi a dileu unrhyw rwystrau i ddenu doniau amrywiol.

# POBL

## Cadw Staff

1 4

| 2022/23 | 2023/24 | Ch4 2023/24 |
|---|---|---|
| 92.7% | 92.9% | N/A |

**Disgrifiad KPI**
Canran y cydweithwyr TrC a arhosodd gyda TrC yn ystod y flwyddyn. Rydym yn monitro hyn ar y cyd â pham mae cydweithwyr TrC yn gadael y sefydliad i ddyfeisio mentrau i gynyddu cadw gweithwyr i yrru gwell perfformiad a gwella canlyniadau ein busnes, gan leihau'r risg o effaith negyddol ar berfformiad TrC.

### Trosolwg
Dywed ein profiad fod gan sefydliad iach gyfradd cadw cydweithwyr o 90%, ac rydym yn parhau i ddarparu cynllun ymgysylltu â chydweithwyr sy'n hyrwyddo pwysigrwydd cadw ac adeiladu gwybodaeth a phrofiad gan arwain at ostyngiad bach mewn presenoldeb cydweithwyr yn 2023/24 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Rydym yn cynnig lle diogel, cynhwysol a saff i weithio lle gall pob cydweithiwr ddatblygu. I gefnogi hyn yn 2023/24 rydym wedi datblygu rhaglen iechyd a lles ac rydym yn cyflwyno gweithgareddau o hyn ar draws TrC. Rydym wedi creu cynllun ymgysylltu yn seiliedig ar gamau gweithredu sy'n deillio o arolwg cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a gynhaliwyd y flwyddyn flaenorol ac rydym hefyd wedi adeiladu ar ein rhaglen datblygu arweinyddiaeth fewnol gan weld llawer iawn o lwyddiant yn cael ei dderbyn a chanlyniadau i'r rhai sy'n mynychu.

### Edrych Ymlaen
Byddwn yn parhau i hyrwyddo a chyflwyno rhaglen wedi'i chynllunio o ddigwyddiadau sy'n annog llesiant a ffyrdd iach o fyw, gyda ffocws wedi'i dargedu ar iechyd meddwl a straen. Byddwn yn parhau i helpu ein cydweithwyr i dyfu a datblygu yn eu gyrfa trwy ddarparu hyfforddiant ac addysg fewnol ac allanol. Byddwn yn ehangu cyfleoedd drwy bartneriaethau â Llywodraeth Cymru a Network Rail i gynnig cyfleoedd secondiad o fewn y sefydliadau hynny. Byddwn yn parhau i adeiladu ar ein rhaglenni prentisiaeth a graddedigion arobryn, gan weithio i ddenu a chadw pobl o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn y diwydiant. Rydym yn adolygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn effeithiol.

# Cyllid

## Gwariant ar Weithrediadau

1

| 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|
| £312.2 M | £396.9 M |

**Disgrifiad KPI**
Gwariant gweithrediadau blwyddyn lawn.

**Trosolwg**
Mae cyfanswm gwariant ar weithrediadau TrC ar gyfer 2023/24 yn unol â'r llythyr cyllido diwygiedig ar gyfer Rheilffyrdd. Mae'r cynnydd o 2022/23 yn adlewyrchu cost gwasanaethau uwch fel cerbydau newydd, costau cynnal a chadw a chostau gwasanaethau rheng flaen. Mae refeniw tocynnau wedi cynyddu 15% ers y flwyddyn flaenorol.

**Edrych Ymlaen**
Rydym yn parhau i adolygu a herio gwariant net ar draws TrC i reoli costau yn effeithiol a sicrhau gwerth am arian. Rydym yn hyrwyddo sianeli manwerthu tocynnau sy'n fwy effeithlon ac yn cyflawni ein strategaeth diogelu refeniw. Rydym yn manteisio ar ein hunedau hysbysebu a manwerthu i greu refeniw ychwanegol trwy ddenu cwsmeriaid gyda gwell gwasanaethau a thocynnau ar gyfer ein trenau ac yn yr hirdymor, ceisio anelu at fod yn ddarparwr aml-ddull.

## Gwariant Cyfalaf

1

| 2022/23 | 2023/24 |
|---|---|
| £536.5 M | £446.4 M |

**Disgrifiad KPI**
Gwariant cyfalaf blwyddyn lawn.

**Trosolwg**
Mae gwariant cyfalaf TrC ar gyfer 2023/24 yn cael ei wneud yn bennaf ar raglen trawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd, gan gynnwys trydaneiddio a rhoi cerbydau trên newydd ar waith. Mae gwariant arall yn cynnwys cyllid grant i awdurdodau lleol ar gyfer teithio llesol ag adeiladu Cyfnewidfa Fysiau Caerdydd.  Mae prosiectau eraill fel Depo Rheilffordd Ffynnon Taf o fewn y flwyddyn ariannol.

## Edrych Ymlaen

Rydym yn parhau i gynllunio prosiectau cyfalaf a rheoli gwariant sy'n achosi her debyg i'r un ledled y DU o ran mynediad at ddeunyddiau, adnoddau a chostau cysylltiedig.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# Cyllid

## Gwerthu Tocynnau

1

| 2022/23 | 2023/24 | Ch4 2023/24 |
|---|---|---|
| £129.3 M | £148.4 M | £43.4 M |

### Disgrifiad KPI

Refeniw gwerthu tocynnau trên; cyfeirir at hyn yn gyffredin fel Refeniw Teithwyr (er bod Farebox Income yn cael ei ddefnyddio'n gyfnewidiol ar draws y diwydiant).

## Trosolwg

Mae'r refeniw gwerthu tocynnau trên wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn o 2022/23 i 2023/24 gan adlewyrchu'r cynnydd yn nifer y gwasanaethau a ddarperir yn ogystal ag adferiad i lefelau cyn COVID. Ysgogwyd y cynnydd hwn yn bennaf gan y twf yn nifer y teithiau teithwyr a wnaed.

## Edrych Ymlaen

Byddwn yn parhau i chwilio am ffyrdd i wella profiad y cwsmer i greu cynnydd pellach ymysg teithiau teithwyr trên er mwyn sbarduno twf mewn refeniw. Byddwn yn darparu prisiau rheoli refeniw mwy deinamig ar draws y rhwydwaith ac yn archwilio dull mwy arloesol o ran costau a phrisiau yn ystod 2024-25. Rydym hefyd yn rhoi ein strategaeth farchnata twf refeniw ar waith. Bydd hyn yn ceisio manteisio ar flwyddyn gyffrous wrth i fwy o drenau newydd gael eu rhoi ar waith ar ein rhwydwaith ac wrth i waith i wella'r profiad i'n cwsmeriaid barhau gyda gwelliannau i'n ap a'n gwefan ac ehangu ein cynnig talu wrth fynd.

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# CYNALIADWYEDD

## Allyriadau Carbon Deuocsid fesul Cilometr Teithwyr

2 3 4 7

| 2022/23 | 2023/24 | Ch4 2023/24 |
|---|---|---|
| 91 | 84 | N/A |

### Disgrifiad KPI

Swm yr allyriadau carbon deuocsid Cwmpas 1 mewn gramau a gynhyrchir gan ein gwasanaethau rheilffyrdd fesul km o deithwyr a deithiwyd. Allyriadau Cwmpas 1 yw'r rhai sy'n deillio o'r tanwydd a ddefnyddir ar ein trenau. Mae'r fethodoleg hon yn unol â meini prawf adrodd Llywodraeth Cymru ar gyfer allyriadau carbon.

### Trosolwg

Gostyngodd allyriadau carbon deuocsid y stoc dreigl fesul cilomedr teithwyr 7.6% eleni wrth i ni symud oddi wrth ddefnyddio trenau hŷn a defnyddio trenau newydd, mwy effeithlon yn ogystal â chynyddu nifer y teithwyr sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Yr hyn nad yw'n cael ei fesur yma ond sy'n fudd ychwanegol, yw y bydd y cynnydd yn nifer y teithwyr yn debygol o gael gostyngiad cyffredinol mewn allyriadau eraill o gerbydau wrth i bobl ddefnyddio trenau yn lle ceir a beiciau ac ati.

### Ymlaen Edrych

Rydym yn parhau i ddarparu rhaglenni i wella ein hôl troed carbon a chyn bo hir byddwn yn cyhoeddi ein Strategaeth Ynni 2030 a fydd yn darparu dull cadarn a phenodol i ni o leihau effaith amgylcheddol ynni a ddefnyddir ar draws ein hystâd a'n gwasanaethau trafnidiaeth wedi'u trydaneiddio. Bydd hyn yn ein helpu i leihau allyriadau o'r ynni a ddefnyddir i bweru Llinellau Craidd y Cymoedd sydd wedi'u trydaneiddio.